Merched y Wawr

## PASIANT

Nos Sul 14 Tachwedd, 1976, perfformiwyd pasiant ar waith a bywyd Ann Griffiths, gan Ferched y Wawr Llanfyllin a thrigolion ardal Llanfyllin, yng Nghapel y Tabernacl. Yr oedd y pasiant yma ar lafar ac ar gân, yn cynnwys portreadau, cerdd dant, cyd-adrodd, adroddiadau unigol, canu gwerin, anterliwt, tryloywderau, ynghyd â Chôr Penybont-fawr yn cynorthwyo trwy ganu rhai o emynau Ann Griffiths. Y prif gymeriadau oedd: Ann Griffiths, Miss Rhiannon Williams; ysbryd Ann Griffiths, Miss Morfydd Hughes; Siôn Ifan Thomas (ei thad), Mr Bob Evans; Siân Thomas (ei mam), Mrs Mai Evans; John Hughes (Pontrobert), Mr Emrys Jones; Ruth (y forwyn), Miss Mari Jones.

Trefnwyd a chynhyrchwyd y rhaglen ardderchog yma gan Miss Rhiannon Williams a chymerwyd rhan gan 90 o bobl. Yn cyfannu'r rhaglen yr oedd effeithiau sain a goleuadau yng ngofal Mr. Emrys Jones, gyda chynhorthwy gan Mr. Huw Fransis. Telynores y noson oedd Mrs. Gwenda Owen a'r organydd oedd Mrs Eldryd Jones.

Ar ddechrau'r cyfarfod rhoddwyd teyrnged arbennig i deulu Dolwar-fach am eu gwasanaeth yn cadw cartref Ann Griffiths i'r genedl. Anrhegwyd y teulu gan Ferched y Wawr, Llanfyllin mewn englynion a sgrifennwyd gan y Prifardd Emrys Roberts, Llangadfan, wedi eu gosod allan mewn sgript addurniedig, gain gan Mr. Robin Hughes, a'u fframio yn hynod grefftus gan Mr. Meurig Hughes mewn ffrâm o dderw Maldwyn.

Dyma'r englynion:

**Nid mynwent ond emynau — a'n dena**
**I dŷ Ann, a ffrindiau**
**Ffeind yn croesawu coff*áu***
**Mawredd fu rhwng y muriau.**

**Cartref y ferch ardderchog — a sawrodd**
**Rosyn Saron gwlithog;**
**Carodd ei wrid godidog**
**A chanu i'r Iesu crog.**

**Nid ei Duw yw duw'n daear — ddigrefydd,**
**Â'i grafanc mor anwar,**
**Ond cadwyd aelwyd Dolwar**
**Yn gaer am y gwerthoedd gwâr.**

**Ffermdy bach, ond mor llachar**

— y

**Pwy a rif ddiolchg**
**Lu trwy holl Gymru**
**Hen deulu annwyl D**

Cyfraniad Merched
Llanfyllin oedd y per
yma i ddathlu daucan
iant geni Ann Griffiths
yn noson hynod lwy
a'r capel yn llawn i'r y

Diolchwyd i Miss
Williams dros gwmni'r
gan Mrs Mair Ellis.
lwyno anrheg o drefnian
sychion, gwaith Mr
Hughes wedi ei framio
Meurig Hughes yn
englyn o ddiolch a
amgylchiad wedi ei
gan Mr John Main





MERCHED Y WAWR LLANFYLLIN.

# ANN GRIFFITHS

## (1776 - 1805)

Pasiant ar ei bywyd a'i gwaith yn cael ei
gyflwyno gan rhai o drigolion
Llanfyllin a'r Cylch
ynghyd â

CHÔR PENYBONTFAWR
yng

Nghapel y Tabernacl

NOS SUL TACHWEDD 14eg. 1976
am 7.45 o'r gloch.

Trefnwyd a chynhyrchwyd y rhaglen gan

RHIANNON WILLIAMS

Cynhyrchwyd yr Anterliwt gan

JOHN MAINWARING

Telynores : GWENDA OWEN
Organyddes: ELDRYDD JONES

Mynediad trwy raglen

Oedolion 40c. Plant a Phensiynnwyr 20c.